02.01.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg **Press Article**

Straeon rhyfeddol rhai o adeiladau Cymru

O galedi'r tloty i foethusrwydd tŷ bonedd, bydd cyfres newydd sbon ar S4C yn agor y drws ar straeon rhyfeddol rhai o adeiladau Cymru.

Bydd **Waliau'n Siarad** yn dathlu hanes a phensaernïaeth ein gwlad drwy straeon y bobl fu'n byw neu'n gweithio mewn chwe adeilad arbennig.

Bob wythnos, bydd y cyflwynwyr **Aled Hughes** a **Sara Huws** yn cael rhwydd hynt i grwydro coridorau a chorneli un adeilad penodol.

Ffermdy hynafol yng Ngheredigion gyda chysylltiadau ag oes y tywysogion, yr abatai a'r Greal Sanctaidd gaiff eu sylw yn y rhaglen gyntaf am 8yh nos Sul 12 Ionawr 2020.

Bydd Aled a Sara yn holi pam, sut a phryd y cafodd Mynachlog Fawr ei godi drws nesa at abaty eiconig Ystrad Fflur ger Tregaron.

Maen nhw'n sgwrsio gyda Charles Arch a'i chwaer Beti Williams am eu magwraeth ar y ffarm ganol y ganrif ddiwethaf, a'r ddau yn dwyn i gof hen ffordd Gymreig o fyw ac amaethu.

Mae Aled a Sara hefyd yn clywed am gyfraniad mynachod y Canol Oesoedd at ddiogelu'n llenyddiaeth, a damcaniaeth am greu canolfan tebyg i Abaty Westminster yn Ystrad Fflur i weinyddu Cymru annibynnol.

Yn gyflwynydd y gyfres gwis *Rhannu* ar S4C a sioe foreol BBC Radio Cymru, mae Aled wrth ei fodd yn clywed hanesion ac atgofion gan ystod eang o gyfranwyr.

"Mae gwneud y gyfres yma wir wedi bod yn fraint," meddai Aled, sy'n dod o Lanbedrog yn wreiddiol ond sydd bellach yn byw ar Ynys Môn.

"Dw'i a Sara wedi cael cyfle prin i fynd i mewn a chanfod mwy am chwech adeilad sy'n bwysig i'n hanes a'n hunaniaeth ni fel gwlad. Maen nhw'n gymaint mwy na waliau sych. Mae gan bob un eu straeon unigryw ac mae'r rheiny'n dod yn fyw wrth sgwrsio gyda phobl, a chlywed am eu profiadau nhw ac eraill fu'n byw neu'n gweithio yn yr adeiladau hyn."

Mae Sara Huws yn wyneb newydd ar S4C ond fel hanesydd adeiladau mae ganddi brofiad helaeth o weithio ym maes archif a hanes pensaernïaeth.

"Beth oedd yn wych am **Waliau'n Siarad** oedd cael cyfle i fusnesu mewn adeiladau sydd fel arfer ynghau i'r cyhoedd. Mae llefydd fel Coleg Harlech yn rhan o'n hanes ni i gyd yng Nghymru ac roedd yn fraint cael mynediad at y lle. Mae mor bwysig i ni ddathlu ac ymfalchïo yn y trysorau pensaernïol yma, a gwneud yn siwr nad yw eu straeon yn mynd yn angof," meddai Sara sy'n gweithio yn Adran Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd.

Waliau'n Siarad
12 Ionawr ar S4C am 8.00
Isdeitlau Saesneg
Ar gael ar Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Cwmni Unigryw ar gyfer S4C

02.01.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Article

The surprising stories behind some of Wales's buildings

From the hardships of the workhouse to the luxury of the aristocracy, this brand new series on S4C opens the door on the amazing stories behind some of Wales's buildings.

Walaiau'n Siarad celebrates our country's history and architecture through the stories of the people who lived or worked in six special buildings.

Every week, the presenters Aled Hughes and Sara Huws get free rein to wander the corridors and corners of one particular building.

An ancient farmhouse in Ceredigion with links to the age of the princes, the abbeys and the holy grail is the subject of the first programme on Sunday, January 12 at 8.00.

Aled and Sara will be asking why, when and how Mynachlog Fawr was built next door to the iconic Strata Florida abbey near Tregaron.

They speak to Charles Arch and his sister Beti Williams about their upbringing on the farm in the middle of the last century, with the two reminiscing about the old Welsh ways of life and farming.

Aled and Sara also hear about how the monks of the Middle Ages contributed towards safeguarding our literature and plans to create a centre similar to Westminster Abbey in Strata Florida to administer an independent Wales.

Presenter of the quiz series *Rhannu* and the BBC Radio Cymru breakfast show, Aled is in his element hearing about the stories and memories of a wide range of contributors.

"Making this series has really been an honour," said Aled, who comes from Llanbedrog originally but now lives on Anglesey.

"Sara and I have had the rare opportunity to go in and find out more about six buildings which are important to our country's history and identity. They are so much more than plain old walls. Each one has their own individual story and these stories come alive as we chat with people and hear about their experiences and those of others who lived or worked in these buildings."

Sara Huws is a new face on S4C but as a buildings historian she has a wide experience of working in the field of architectural history and archives.

"The great thing about **Waliau'n Siarad** was having the opportunity to have a nose in buildings which are normally closed to the public," said Sara who works at Cardiff University's Special Collections and Archives. "Places like Coleg Harlech are part of the history of everybody in Wales and it was an honour to have access to the place. It is so important to celebrate and take pride in these architectural treasures and make sure that their stories are never forgotten."

Waliau'n Siarad
Sunday, 12 January 8.00, S4C
English subtitles
Available on Clic, iPlayer and other platforms
A Cwmni Unigryw production for S4C